| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **FFORWM CYLLIDEB YSGOLION** |
| **DYDDIAD** | **18 Mehefin 2018** |
| **TEITL** | **Cyfrifon Terfynol Ysgolion Blwyddyn Gyllidol 2017/18** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno er gwybodaeth** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Derbyn yr adroddiad** |
| **AWDUR** | **Garem Jackson<br>Pennaeth Addysg** |
| **AELOD CABINET DROS ADDYSG** | **Y Cynghorydd Gareth Thomas** |

**1 <u>Cyfrifon Terfynol 2017/18</u>**

1.1 Atodir er gwybodaeth manylion balansau ysgolion unigol ar 31 Mawrth 2018 (**atodiad 1**).

1.2 Crynodeb o falansau ysgolion ar 31/03/2018 -

| | canran | 31/03/2017 | agor ysgol Bro Idris | cynnydd+/ lleihad- | 31/03/2018 | canran |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynradd | 5.57% | £2,018,515 | -£10,593 | +£735,122 | £2,743,044 | 7.92% |
| Dilynol | - | - | +£171,395 | +£253,977 | £425,372 | 13.05% |
| Uwchradd | 2.42% | £816,787 | -£160,802 | +£237,710 | £893,695 | 2.80% |
| Arbennig | 1.54% | £43,230 | - | -£86,863 | -£43,633 | -1.30% |
| **Cyfanswm** | **3.96%** | **£2,878,532** | **£0** | **+£1,139,946** | **£4,018,478** | **5.49%** |

1.3 Yn gyffredinol, mae balansau holl ysgolion Gwynedd wedi cynyddu +£1,139,946 yn ystod 2017/18 i £4,018,478 sy'n cyfateb i 5.49% o'u dyraniad terfynol.

1.4 Mae gan 6 ysgol ddiffyg ariannol ar ddiwedd 2017/18 gwerth -£306,393 o'i gymharu gydag 17 ar ddiwedd 2016/17 gwerth -£420,471.

- 2 Ysgol Gynradd gyda chyfanswm diffyg -£7,891 (-£1,794 a -£6,097)
- 3 Ysgol Uwchradd gyda chyfanswm diffyg -£173,691 (amrywio rhwng -£5,719 a -£118,938)
- 1 Ysgol Arbennig gyda diffyg -£124,811

## 2 Cynllun Cyfarwyddo Defnydd Balansau

2.1 Mae gan yr Adran Addysg rym i gyfarwyddo'r corff llywodraethu sut i wario'r elfen o'u balansau sydd dros y trothwy o £50,000 i Ysgolion Cynradd ac £100,000 i Ysgolion Dilynol, Uwchradd ac Arbennig.

2.2 Mae'r drefn gweithredu yn parhau fel y llynedd.

2.3 Mae colofn 'F' ar atodiad 1 yn amlygu'r symiau ariannol sydd dros y trothwyon –

- 15 ysgol gynradd (amrywio rhwng £1,385 a £64,372 uwchben y trothwy)
- 1 ysgol ddilynol (£325,372 uwchben y trothwy)
- 4 ysgol uwchradd (amrywio rhwng £9,107 a £170,928 uwchben y trothwy)

## 3. Casgliad

3.1 Mae cyfanswm y balansau sydd dros 5% wedi cynyddu o £1,285,447 (44 ysgol) ar 31/03/2017 i £1,838,398 (67 ysgol) ar 31/03/2018.

3.2 Gwerth y Grant Refeniw Cynnal a Chadw Llywodraeth Cymru ar gyfer y 67 ysgol sydd gyda balansau dros 5% ar 31/03/2018 yw £360,833.

## 4. Argymhelliad

**4.1 Dylai'r Adran Addysg a'r Adran Gyllid gydweithio yn agos gyda'r ysgolion gyda diffyg ariannol er mwyn sicrhau eu bod yn clirio'r diffyg cyn gynted â phosib.**

**4.2 Dylai'r Adran Addysg a'r Adran Gyllid barhau i fonitro cyllidebau ysgolion.**